# BATHAFARN BACH

CYLCHGRAWN HANES YR EGLWYS FETHODISTAIDD YNG NGHYMRU

Rhif 6 – Gaeaf 2015

## 'Yr Eglwysbach'

**Anerchiad yng nghapel Ebeneser, Eglwysbach yn ystod Pererindod y Gymdeithas Hanes 16 Mai 2015**

Rydym yma'r pnawn 'ma i gofio gweinidog Wesle arbennig iawn. Eglwysbach fu dechrau'r daith iddo ac fel 'Yr Eglwysbach' y cyfeiriwyd ato. Ac roedd dylanwad yr ardal hon yn fawr arno, a chofiwn hefyd gyfraniad gwych Dyffryn Conwy tuag at gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg.

### GAIR AM EI YRFA CYNNAR

Fe'i ganed 28 Medi 1840 yn fab hynaf David a Jane Evans Tŷ Du, y tad yn ffermwr adnabyddus, ac yn medru troi ei law at bopeth. Pan oedd John tua wyth oed, cymerodd y tad drosodd fferm fwy Goleugell, ac fel 'John y Glygell' yr adweinid y mab yn y cylch. Roedd ei fam hithau yn gymeriad cryf, ac yn nodedig am ei graslonrwydd a'i charedigrwydd. A'r tad a'r fam yn aelodau selog gyda'r Wesleaid yma ac yn croesawu pregethwyr i'w cartref.



Parch. John Evans

A chofiwn fod yr achos yn Eglwysbach yn mynd yn ôl i flynyddoedd cynnar y Wesleaid Cymraeg yng Nghymru. Cawn hanes am rai o'r Llan yn mynd yn 1802 filltiroedd i wrando un o'r cenhadon Wesleaidd cyntaf, John Bryan, yn pregethu ar y mynydd uwchben Eglwysbach a Bae Colwyn. Daethant yn ôl â'u bryd ar sefydlu achos yn Eglwysbach, ac erbyn 1806 roeddent wedi codi'r capel cyntaf yma.

Ychydig o addysg ffurfiol a gafodd John Evans a'r unig ysgol yma oedd Ysgol yr Eglwys leol, ond cafodd athro gwych – Richard Beverley – a deuai plant o Lanrwst, Conwy a Llangernyw i eistedd wrth ei draed. Gwnaeth John mor dda yn yr ysgol hon fel y cafodd gynnig cymorth offeiriad y plwyf iddo fynd yn ddisgybl-athro. Ond roedd amod – rhaid fyddai rhoi'r gorau i'r capel ac ymuno â'r eglwys. Er hyn, roedd yr addysg a gafodd yn ddigon iddo drysori dysg a darllen a mynychu llyfrgelloedd ar hyd ei oes.

Gadael ysgol, felly, a helpu ei dad ar y fferm fel bugail. Ac mewn gwirionedd roedd hyn yn baratoad delfrydol ar gyfer gwaith mawr ei fywyd fel bugail eneidiau ar batrwm y Bugail Da.

Ac yna, ac yntau yn bedair ar ddeg oed, daeth colled fawr i'w ran. Bu farw ei fam, a gwir y gair 'Cledd â min yw claddu mam'. A chymaint ei dylanwad arno, fe droes i feddwl o ddifrif am ei ddyfodol. Roedd yn arferiad bryd hynny i aelodau'r capel fynd o amgylch i gynnal cyfarfod gweddi yn nhai'r hen a'r methedig. Ac mewn un o'r tai hynny – Nant y Cerrig Bach – y dechreuodd John gymryd rhan yn gyhoeddus. Gwelodd ei gyd-aelodau fod ganddo ddawn arbennig a phwyso arno i feddwl am y weinidogaeth. A chyn bod yn ddeunaw oed, cytunodd i ofyn am ganiatâd y Gylchdaith i ddechrau pregethu.

Pregethodd am y tro cyntaf yn eglwys Capel Garmon, uwchlaw Betws y Coed, ar y testun: 'O frodyr, gweddïwch drosom' (1Thes. 5.25). Roedd ofn mawr arno ac yn falch o weld drws y capel ar agor, rhag ofn y byddai'n rhaid dianc! Carlamu drwy'r bregeth, a bron â gorffen pan welodd geiliog dandi yn ymsythu ar garreg y drws a dechrau canu â'i holl egni mewn cystadleuaeth. Daeth yr oedfa i ben yn sydyn, ac er y derbyniad cynnes gan gyfeillion Capel Garmon, roedd John Evans am roi gorau i bregethu am byth!

Ond mi gafodd gymorth parod gan eraill, yn enwedig Robert Davies, pregethwr cynorthwyol diwylliedig iawn o Lanrwst. Ailgydiodd mewn pregethu a chael oedfa dda yn Soar, Maenan, gan bregethu ar 'Achubiaeth Ceidwad y Carchar' o Lyfr yr Actau. A dyma'r amser i ddechrau pregethu yng Nghymru, yn dilyn cyffro diwygiad 1859 dan arweiniad Humphrey Jones, Tre'r Ddôl. Ond beth sy'n rhyfedd yw y cafwyd ernes o'r diwygiad hwnnw flwyddyn ynghynt yn Ngogledd Cymru, gan ymledu o Fangor i Gonwy a Llandudno ac Eglwysbach!

Daeth John Evans i amlygrwydd yn syth, a phobl o'r newydd yn derbyn Iesu Grist yn ei oedfaon. Tyrrai pobl i'w weld a'i wrando. Ac yn aml wrth iddo chwilio'n daer am ffordd i gael mynediad i gapel, byddai rhai yn dweud y drefn wrtho am ei roi ei hun o flaen rhai hŷn nag ef. Roedd ei fryd yn awr ar y weinidogaeth, a derbyniwyd ef fel ymgeisydd yng Nghyfarfod Taleithiol Llanfyllin1860. Ond yn rhyfedd iawn, ac yn groes i'w ewyllys, ni chafodd fynd i Goleg Diwinyddol. Nid yw'r rheswm yn gwbl glir, ond anfonwyd ef i Sir Fôn i fod yn gyntaf yn Was Cylchdaith am flwyddyn ac yna yn Weinidog ar Brawf (Cylchdaith Amlwch). Ac ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yng Nghynhadledd Birmingham yn 1865.

Wedi'r tair blynedd yn Sir Fôn, bu'n gwasanaethu yn yr Wyddgrug, Lerpwl, Bethesda, Lerpwl eto, Llundain, Bangor a Chroesoswallt. Symud wedyn i'r gwaith Saesneg yn Llundain, cyn dod yn ôl i Dde Cymru i ardal Pontypridd, a chael ei wneud yn Gadeirydd Talaith y De.

Ac mewn oes pan nad oedd sôn am wraig yn weinidog, bendith i bob gweinidog oedd gwraig dda. A phriododd John Evans ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Charlotte Pritchard, merch yr aelwyd a roddodd groeso cynnes iddo pan aeth i Lerpwl am y tro cyntaf. Cawsant dri o blant – dwy ferch a mab. Roedd eu cwpan yn llawn! Ond bu farw'r mab yn blentyn, a thorrodd y fam ei chalon a bu farw yn Llundain chwe blynedd wedyn (1884).

Nid hawdd i John Evans oedd dwyn i fyny dwy ferch ac yntau gymaint oddi cartref. Ac felly, dwy flynedd ar ôl iddo golli Charlotte, priododd Clara Kate Richardson o Ealing, Llundain, ychydig cyn symud i Fangor (1886) a chawsant blant.

### GAIR AM JOHN EVANS YN ANTERTH EI NERTH

Cofiwn amdano fel pregethwr mawr. Beth oedd ei gyfrinach? Dyn bychan o gorff, ond roedd cynhesrwydd yn ei wyneb a cherddai fel un ag awdurdod ganddo. A'i Gymraeg yn rhywiog. Nid Cymraeg llyfr, ond iaith syml, werinol. A dawn ganddo i dynnu llun â geiriau. Roedd ar dân i achub eneidiau ac roedd rhywbeth cartrefol yn ei gyflwyniad oedd yn swyno cynulleidfa. Pob gair dan lywodraeth. A'i ddiffuantrwydd yn amlwg i bawb.

Mae atgofion pregethwyr poblogaidd a glywsom ni yn help inni ei gofio heddiw. Cofiai Tecwyn Evans ffordd annwyl John Evans o drin sefylla anodd. Oedfa yn Penrhyndeudraeth a'r lle yn llawn dop – pobl yn sefyll ym mhob man. Dau yn pregethu a'r cyntaf wedi cael amser caled iawn – gwraig ifanc a safai dan y galeri wedi dod â'i baban bach, a'r plentyn wedi beichio crïo drwy'r bregeth. Pawb yn flin, neb yn gallu clywed. Yna John Evans yn esgyn i'r pulpud. Ac meddai â gwên: 'Cyn imi ddechrau, ffrindiau, a gaf fi ofyn ffafr. Chwi gyfeillion sy'n sefyll

dan y galeri acw, wnewch chi glosio, os gwelwch yn dda, at eich gilydd i wneud lle i'r fam annwyl acw fynd â'r baban bach allan – mae hi wedi bod yn chwilio am gyfle ers meitin, ond mae pawb yn y ffordd.' Y broblem drosodd: y bobl yn cael y bai, a John Evans yn cael gwrandawiad.

I Tegla Davies, ar y llaw arall, er cymaint ei ddoniau a'i boblogrwydd fel pregethwr, roedd ei wir fawredd yn perthyn i'w ofal cyson am ei braidd drwy ei ymweliadau a'i weddïau taer ar ei liniau ar eu haelwyd. Ac aelodau'r teulu a'r gweision oll yn rhannu'r fendith, a'r dylanwad yn para am oes.

A hir gofir hefyd am sylwadau John Roger Jones ar John Evans yn y capel hwn fis Medi 1973, flwyddyn cyn ei farw yn 93 oed. Un o Gonwy oedd John Roger Jones, ac yn llawn atgofion. Cofiai bregeth John Evans ar Arch Noa. Y pregethwr yn disgrifio Noa a'r bechgyn yn adeiladu'r arch ac yn cael trafferth. Anhawster gyda maint y drws. Anfon Sem i'r goedwig i fesur yr eliffant mwyaf a welai. Hwnnw'n dod yn ôl a dweud fod yna greadur mwy na'r eliffant – y giraffe! A Noa yn dweud: 'Wel, mi fydd yn rhaid iddo ddysgu plygu ei ben!' Yna John Evans yn disgrifio'r anifeiliaid yn mynd i mewn i'r arch, a chau y drws a'r dilyw yn dod. A phan oedd y perygl drosodd, Noa yn cael pawb i ganu 'I Dad y trugareddau i gyd' a'r llew yn canu bas! Ac yma roedd John Roger Jones yn pwysleisio hiwmor John Evans. Roedd yn ei gofio yn dod i'r tŷ i weld ei dad a'r ddau yn chwerthin dros y lle. Nid dyn sychlyd oedd John Evans.

A chofiai John Roger Jones hefyd John Evans yn pregethu yn y capel hwn ryw flwyddyn neu ddwy cyn ei farw brawychus o sydyn. Y capel yn llawn dop a llawer mwy tu allan! Panig! Beth i'w wneud? Bu raid i'r swyddogion symud y ffenestr ar ochr y capel, gosod lori tu allan, a John Evans yn sefyll arni ac yn pregethu yn y glaw ar Joseff i'r dorf enfawr tu allan ac i'r rhai tu mewn, bob yn ail. A'r efengylydd annwyl , Griffith Jones, Capel Garmon, yn dal ambarel uwch ben y pregethwr. Yna, ar y terfyn, John Evans yn gofyn i'r rhai tu mewn fynd allan, er mwyn i'r rhai tu allan gael cyfle i roi eu hunain o'r newydd i Iesu Grist.

Mae'n amlwg felly fod gwahodd John Evans i bregethu yn sicr o olygu tipyn o boendod i swyddogion eglwys. Dyna hanes agor capel newydd Sant Paul Aberystwyth yn 1880 a John Evans yn pregethu i gloi y dathlu. Wel, trenau arbennig wedi dod â phobl o Dolgellau, y Bermo, Towyn, Llanidloes, heb sôn am bobl y trefi a'r pentrefi cyfagos. Y capel newydd a lle i dros bedwar cant yn llawer rhy fach, a'r swyddogion yn gorfod rhedeg i ofyn caniatâd blaenoriaid Eglwys Bresbyteraidd Seilo i gael defnyddio eu capel mawr hwy.

A'r un oedd yr hanes wrth agor capel newydd hardd Colwyn (1886). Y capel wedi ei orlenwi ymhell cyn yr amser ac yn beryglus o llawn, a thyrfa fawr tu allan yn dal i ddisgwyl mynediad. Dim amdani ond gyrru pobl i wrando'r pregethwr arall yng nghapel yr Annibynwyr.

Ac mae hyn oll yn dangos yn eglur fod apêl John Evans nid i'n henwad ni fel Wesleaid yn unig ond i bobl o bob enwad yng Nghymru, ac roedd yntau hefyd yn credu ei bod yn bwysig i ddod â'r enwadau yn agosach at ei gilydd. Yn ei ddarlith boblogaidd ar 'Godiad a Chynnydd y Pedwar Enwad yng Nghymru' mae'n dyheu am weld y dydd 'lle na bydd neb yn gofyn i'w gymydog i ba enwad y perthyn, ond fel yn Antiochia gynt, y bydd galw disgyblion yn Gristnogion'. Yn sicr, roedd o flaen ei oes!

Yn y cyfnod llewyrchus hwn roedd ar fynd drwy'r amser. Ymwelodd â'r Unol Daleithiau ar daith bregethu ddwywaith. Ac roedd galw mawr amdano fel darlithydd, heb sôn am ei gyhoeddiadau niferus mewn print. Hyd yn oed ar ôl oedfa, mynnai ddarllen am oriau cyn cysgu. Pam yr ysfa? Ceir hanes diddorol amdano yn cynrychioli'r Wesleaid Cymraeg gyda dau arall yn y Gynhadledd Flynyddol yn Sheffield, ac un pnawn roedd ganddynt amser i grwydro o gwmpas y ddinas. Gweld stondin yn y farchnad yn gwahodd pobl i dalu am i arbenigwr ddarllen eu cymeriad o astudio'r pen. Roedd John Evans yn benderfynol fod y tri yn eu cynnig eu hunain! Yntau yn mynd a'r lleill yn gofyn beth ddywedodd o. Y peth cyntaf ddywedodd oedd bod John Evans yn *very popular public speaker*, a bod ganddo'r ddawn (magnetism) i dynnu pawb ato ei hun, ond bod tuedd yn ei natur at ddiogi! Ei ddau ffrind yn siglo chwerthin, ond John Evans yn cyffesu fod y dyn yn dweud y gwir. Roedd Robert Davies, y pregethwr cynorthwyol o Lanrwst a fu'n gefn iddo, wedi tanlinellu mai ei berygl mawr oedd diogi!

## Y MACHLUD CYNAMSEROL

Ac yna bu'r machlud. Bu iddo synnu pawb a mynd drosodd i'r gwaith Saesneg fel arolygwr cylchdaith yn Islington, Llundain yn 1890, am dair blynedd, er crefu arno gan lawer i aros yng Nghymru. Mae'n debyg ei fod yn ystyried beth oedd orau i'w wraig, gan mai merch o Lundain oedd hi, ac efallai ei fod yntau yn teimlo pwysau'r gwaith, ac yn credu y byddai'r gwaith ychydig yn ysgafnach gyda'r Saeson. Ond dal i gynyddu oedd y cyfrifoldebau. Er engraifft, etholwyd ef i swydd o bwys gan ei gyd-weinidogion fel un o'r Cant Cyfreithiol oedd i gadarnhau penderfyniadau ac etholiadau'r Cyfundeb.

Ac yna daeth cyfle i ddychwelyd i Gymru yn 1893 a sefydlu Cenhadaeth Deheudir Cymru Pontypridd, sef mudiad ymosodol i wasanaethu pobl tu allan i eglwys, a chynorthwyo'r rhai oedd wedi tyrru i'r De i weithio yn y pyllau glo a gweithfeydd eraill. Apeliai'r swydd ato, ond golygai fod y pwysau yn trymhau. Ef oedd yn bennaf gyfrifol am gyhoeddi'r misolyn *Y Fwyell* sy'n bwysig am ei atgofion cynnar. Ac ar ben hyn oll, daeth yn Gadeirydd Talaith y De yn 1895 gyda'r holl gyfrifoldeb sydd ar ysgwyddau Cadeirydd Talaith.

A cheir llythyr allweddol ganddo (Mehefin 1897) at ddau fyfyriwr Wesla yng Ngholeg Bangor – Tecwyn Evans a Rhys Jones oedd â'u bryd ar y weinidogaeth – yn eu gwahodd i'w helpu yn y De dros fis Awst drwy bregethu ac ymweld. Ac meddai John Evans: 'Y mae fy iechyd yn dra sigledig – myned ar encil y mae fy nerth ac ofnaf y bydd yn rhaid imi ymneilltuo oddi wrth ofal y Genhadaeth a'r Dalaith am gyfnod. Yr wyf yn dra awyddus nid yn unig i fyw, ond hefyd i gael adferiad iechyd.' Ac mae'n gorfod cyfaddef fod y Genhadaeth mewn gwir angen adfywiad. Llythyr trist. Aeth y ddau fyfyriwr i'r De, ac nid rhyfedd ganddynt glywed am farwolaeth annisgwyl John Evans y mis Hydref canlynol yn 57 mlwydd oed.

Roedd wedi addo mynd i Gyfarfod Pregethu ei hen eglwys, yn Shaw Street Lerpwl, ond nid oedd yn hanner da. Ceisiodd y Parch. Berwyn Roberts ei berswadio i aros gartref. Ond mynd yr aeth gyda'i wraig ben bore Sadwrn, a bu farw'n sydyn y noson honno tra'n aros gyda chyfaill. Fe'i claddwyd ym mynwent Anfield yn Lerpwl, a chapel mawr y Methodistiaid Saesneg yn Anfield yn llawer rhy fach ar gyfer y dorf, ac ni welwyd y fath wylo erioed. A Tecwyn Evans yn ysgrifennu yn ei ddyddiadur am y dydd: 'Claddu John Evans Eglwysbach. Y diwrnod pruddaf welais erioed. Great Man. Yr annwyl, annwyl Eglwysbach'.

Dymuniad ei weddw oedd y byddai un o'r bechgyn yn dilyn ei dad fel Gweinidog yr Efengyl. Ac yn wir yr oedd un yn dangos cryn ddiddordeb, ond daeth y Rhyfel Mawr, a lladdwyd ef ym mrwydr fawr y Somme. Ac addas felly ein bod ni yma heddiw yn edrych ar Bulpud Coffa John Evans a hefyd ar y Gofeb i'r rhai o Eglwysbach a laddwyd yn y Rhyfel Mawr.

*TELFRYN PRITCHARD*

BATHAFARN BACH – Rhif 6 – Gaeaf 2015
© y cyfranwyr unigol
***Cyhoeddwr:***
Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd
***Golygydd:***
Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth SY23 1ET
ffôn: 01970 617771 ebost: madden.aber@btinternet.com
*Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddosbarthu gyda'r Gwyliedydd*
Argraffwyr: Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286 672018)

# William Owen Jones ("W.O.") 1894–1980

Fe berthyn i bob teulu – mae'n siŵr gen i – o leiaf un aelod sydd, o ran nodweddion ei gymeriad a phatrwm ei fywyd, yn wahanol i'r rhelyw, yn dilyn ei lwybr anghonfensiynol ei hun ac yn ennill enw iddo'i hun fel "tipyn o gymer", ys dywedir. Y cymeriadau hynod, unigryw hyn, a'u castiau gwreiddiol ac annisgwyl, sy'n rhoi lliw a blas a difyrrwch i hanes unrhyw deulu. Ymhlith aelodau'r teulu rwyf fi'n digwydd perthyn iddo, y cymeriad hynotaf a mwyaf diddorol ei hanes y deuthum i wybod amdano – ac yn wir i'w adnabod – yw gŵr a ddaeth yn ei ddydd yn bur adnabyddus dros rannau helaeth o Ogledd Cymru, sef y diweddar William Owen Jones (neu "W.O." fel yr adwaenid ef), y milfeddyg o Lanrwst. Ar ôl ymddeol o'i bractis yn Llanrwst yn 1960 cymerodd swydd ran-amser gyda'r Weinyddiaeth Amaeth fel Arolygydd o dan y Gorchymyn Afiechydon Anifeiliaid, a threulio yn agos i ugain mlynedd yn ymweld yn gyson ag Ynys Môn i destio anifeiliaid y ffermydd rhag y *tuberculosis*, gan ddal ati hyd ddiwedd ei oes bron; bu farw yn Chwefror 1980, o fewn rhyw fis i'w ben-blwydd yn 86 oed.



Er mai fel "W.O. Jones, Llanrwst" y daeth Cymru yn gyffredinol i'w adnabod, ymfalchïai W.O. yn wastad (fel rwyf fi fy hun yn ymfalchïo) mai un o "hogiau'r tywod" o'r Bermo ydoedd o ran ei dras a'i fagwraeth. Yr oedd fy nhad ac yntau yn gefndryd – ei dad ef yn frawd i fy nain i. Roeddwn i, felly, yn falch iawn o fedru ei gyfarch ef bob amser fel "Yncl W.O." – ac mae gennyf le i gredu ei fod yntau'n ddigon hapus i'm harddel innau fel ei nai, yn enwedig wedi imi ddod yn Weinidog Wesle (roedd pawb oedd yn 'nabod W.O. yn gwybod mai Wesle selog ydoedd!)

Yn wahanol i mi, fodd bynnag, ni chafodd W.O. ei **eni** yn y Bermo. Yn y Felinheli (porthladd, gyda llaw, y bu perthynas bur agos ar un adeg rhyngddo a'r Bermo) y ganwyd ef ym mis Mawrth 1894. Capten llong oedd ei dad, y Capten John Jones, genedigol o'r Bermo, ac un o'i longau olaf cyn ymddeol o'r môr oedd yr enwog *Mary B. Mitchell*, un o longau Porth Penrhyn. Yr oedd John Jones yn ŵr gweddw canol oed pan ymbriododd â Laura Griffith (hithau hefyd yn enedigol o'r Bermo) ac ymgartrefu yn y Felinheli. Symudodd y teulu yn ôl i'r Bermo yn 1898 pan ymddeolodd y tad, ac yno felly y magwyd W.O. o'i bedair oed ymlaen. Ac yn y Bermo y cafodd ei addysg gynnar nes iddo adael Ysgol Sir y dref honno yn 16 oed, wedi iddo (yn ei eiriau ei hun) gyrraedd yr un safon yn y naill a'r llall o ddau arholiad (*Junior* a *Senior*) y *Central Welsh Board* (fel roedd h'r adeg honno) sef y safon *Failed with Honours!*

Mae'r hanes amdano **wedyn,** fodd bynnag – dan gerydd miniog ei fam (roedd ei dad wedi marw'n 65 oed yn 1906, pan oedd W.O. yn 12 oed) ac ymdeimlad dwfn o gywilydd a barodd i'r llanc ei hun benderfynu rhoi ei feddwl ar waith o'r diwedd, a gwneud hynny i'r fath raddau nes llwyddo o fewn chwe mis i basio arholiad y *Senior College of Preceptors,* a hynny'n agor y drws iddo gael ei brentisio ar gyfer gyrfa fel fferyllydd...Ydi, mae'r hanes amdano'n llwyddo (er gwaethaf pob math o branciau gwallgof a ddenodd ei sylw o bryd i'w gilydd – heb sôn am y 3 blynedd a dreuliodd yn sowldiwr yn yr Aifft a Phalesteina rhwng 1916-1919) i basio'n Fferyllydd yn gyntaf, gan "gwaliffeio" (chwedl yntau) yn MPS cyn ymuno â'r fyddin – ac yna (wedi iddo gael ei *demob*) pasio'n Filfeddyg, gan raddio'n MRCVS ym Mhrifysgol Lerpwl yn 1924...mae'r hanes hwn yn saga rhyfeddol o gyffrous a diddorol, ac yn brawf eglur o'r rhuddin cymeriad yn ogystal â'r gallu ymenyddol oedd wedi bod ynghudd dan wyneb y bachgendod anystywallt ac anghyfrifol – fel yr edrychid arno, yn ddiau, gan deulu ac ysgol fel ei gilydd yn y Bermo yn negawd cyntaf yr ugeinfed ganrif!

Ond sut feddyliech chi y deuthum **i** i wybod am y bachgendod a'r llencyndod hwnnw? Wel, dyma sut y bu hi. Mi ddechreuais ymddiddori yn fy hanes teuluol a mynd ati i ddilyn y ffasiwn "hel achau". Digwyddais glywed bod Robin Gwyndaf o'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan wedi bod yn holi W.O. ychydig cyn diwedd ei oes, ac yn recordio'i atgofion ar dâp. Mewn sgwrs â Robin ar Faes yr Eisteddfod, holais ef am hyn (ni wyddai Robin cyn hynny fy mod i'n perthyn i W.O.). Dysgais ganddo ei fod wedi llwyddo i lenwi dim llai nag ugain o dapiau llawn – oriau lawer o atgofion difyr a sylwadau ffraeth. Yr oedd yr archif ryfeddol o werthfawr hon wedi bod ar gadw yn Sain Ffagan ers ugain mlynedd. Canlyniad y sgwrs honno rhyngof a Robin yw fy mod bellach, drwy ei garedigrwydd ef, wedi derbyn crynodeb o gynnwys pob un o'r 20 tâp, ynghyd ag adysgrifau llawn, gair am air, o gynnwys y rhai cynharaf ohonynt, sef y rhai sy'n ymwneud â'r cyfnod **cyn** i W.O. ymsefydlu yn Llanrwst yn 1924. A'r cyfnod cynnar hwnnw, debyg iawn, yw'r cyfnod sydd o fwyaf o ddiddordeb i mi fel brodor o'r Bermo!

Mi hoffwn i roi ichwi ryw flas bach ar gynnwys atgofion yr hen ffarier ffraeth (a'm hen ewythr hoff fy hun) trwy adrodd hanes rhai o droeon trwstan y bachgendod anystywallt hwnnw a oedd, 'choelia'i byth, wrth iddo ei alw i gof yn ei henaint, yn destun ymffrost yn hytrach nag yn achos gofid a chywilydd i'r hen fachgen!

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at yrfa drychinebus o **aflwyddiannus** f'ewythr yn *County School* y Bermo. Mae lle i gredu, fodd bynnag, fod ei yrfa flaenorol yn y *Board School* wedi bod cryn dipyn yn llai anobeithiol, gan iddo lwyddo i basio'r *scholarship* i gael mynediad i'r *County* yn 1906. Yn ôl y gwrthrych ei hun, i ŵr ungoes o'r enw Sam Jones yr oedd y diolch am y llwyddiant hwnnw:

> O'dd hwnnw yn ditsiar da, a fo fydde'n cymryd dosbarth y *scholarship* bob amser. Dim lol o gwbl; gweithio 'nde; *cane* ar draws ych pen ôl! O'dd o ddim yn gneud yn aml, achos o'ddan ni i gyd ei ofn o, chi'n gweld. Fo o'dd yr unig un o'dden ni'n byhafio efo fo – o' gynno fo gontrôl yn yr ysgol.

Gwahanol iawn, ysywaeth, fu'r hanes yn y *County.* Diddordeb mawr W.O. drwy'r blynyddoedd a dreuliodd yn yr Ysgol honno oedd cadw merlod a'u dangos mewn sioeau – pwnc nad oedd yn ymddangos ar *curriculum* yr ysgol. Byddai'n cadw ei bres poced a phob ceiniog a gâi er mwyn porthi ei ddiddordeb – **a** phorthi'r merlod, wrth gwrs! "O'ch chi'n prynu merlen – yr ora 'radeg hynny – am ryw dair punt, chi'n gweld!" Yr oedd ewythr i W.O. (a hen ewythr i minnau) yn cadw'r *Lion Hotel* yn y Bermo, a byddai hwnnw'n cadw ceffylau a *four-in-hands* i gario'r *visitors* yn ôl a blaen i'r stestion ac ar deithiau i Harlech a lleoedd felly. Yn yr haf byddai W.O. yn cael job, chwedl yntau, yn "biwglo tu 'nôl i'r *four-in-hands* 'ma". Yr unig gyflog a gâi am hyn oedd cyfran o'r *tips* – "a fydde'r dreifar yn gofalu na chawn i ddim llawer o'r rheini". Wedyn, i wneud i fyny am y diffyg cyflog, byddai'n ei helpu ei hun yn slei bach o'r gist flawd yn y stabal – "i gael bwyd i'm 'ffyle fy hun – 'dim dwyn, ond ennill y byddwn i, am y biwglo; o'n i'n haeddu 'pyn bach o flawd, y'n do'n".

Hoff orchwyl y merlotwr ifanc wedi oriau'r ysgol – yn hytrach na gwneud ei *homework* – oedd ymarfer ei ferlod, yn enwedig ar gyfer y gamp oedd, chwedl yntau, "ar y go 'radag hynny yn y sioeau – y *pole and binding* fel o'n nhw'n ei alw, galopio cydrhwng polion a'r cyntaf i neu heb dwtsiad dim byd yn ennill. A **fi** [ychwanegai W.O. yn dalog] fydde'n ennill ym mhob man." Yn anffodus, fodd bynnag, byddai Prifathro *County School* y Bermo yn arfer "mynd o gwmpas gyda'r nosau efo'r hen gi o'dd gynno fo [geiriau W.O. eto], ac o'dd o'n 'ngweld i o hyd ar gefn y ferlen – er mod i'n trio'i sgoi o bob siawns gawn i. A medde

fo wrtha' i un tro: *"You'll be a cabby one day in London – that's all you're good for".* Ond fe ddaeth diwrnod y bu'n rhaid i'r Prifathro hwnnw gydnabod bod y broffwydoliaeth honno o'r eiddo ymhell o fod yn wir.

Mae'r stori honno'n un o berlau atgofion W.O. Dyma sut yr adroddodd yr hanes wrth Robin Gwyndaf:

> Fuo 'na helynt ofnadwy unwaith. Bydde fy mam, chi'n gweld, yn rhoi sgidie cryfion am y nhraed i fynd i'r ysgol – am 'mod i'n cicio tinie a phethe felly wrth fynd a dod ar hyd y strydoedd. A be' ddaru **o** [yr *Headmaster*] ond deud 'tha i am ddeud wrth 'y mam am roi sgidie llai, sgafnach i mi – 'mod i'n gneud gormod o sŵn ar y *corridor*. 'Ma fi'n deud wrth 'y mam be ddeudodd o, a mi ddos i lawr bore wedyn efo sgidie dy' Sul – ond go'fod imi'u tynnu nhw a rhoid y lleill. "Cer, cer yn dy flaen i'r ysgol," medde Mam – a mi es. 'Ma **fo** yn gofyn i mi, *"Did you tell your mother?"* "Yessir". *"What did she say?"* "Nothing, sir," medde fi, "sent me in these again." O'dd o'm yn 'y nghoelio i, chi'n gweld; a 'ma fo'n gyrru *note* i Mam efo un o'r plant eraill. A mi gafodd *note* yn ôl bore wedyn. A wyddoch chi, dyna'r ola' glywes i am y sgidie.

Felly yr adroddodd W.O. bennod gyntaf y stori fer dan sylw. Mae'r ail bennod yn ymwneud â chyfnod oddeutu pymtheng mlynedd yn ddiweddarach. Erbyn y flwyddyn 1924 yr oedd W.O. newydd raddio'n MRCVS a phasio'n *vet*. A'r job gyntaf a gafodd oedd fel *locum* i hen *vet* yn y Bermo. Ac un diwrnod daeth neges i'r *surgery* fod ci *Headmaster* y *County School* yn sâl – nid yr un ci, mae'n siŵr, â hwnnw oedd wedi arfer gweld yr hogyn drwg Willie Jones yn marchogaeth ei ferlen gynt, ond yr un *Headmaster* [neb llai na'r diweddar Edmund David Jones MA, gŵr hynod barchus, dysgedig ac eang ei ddiwylliant a fu'n brifathro Ysgol Sir y Bermo o'i sefydliad yn 1894 hyd at ddechrau tridegau'r ugeinfed ganrif]. Caiff W.O. ei hun orffen y stori:

> Fi gafodd y job o fynd i dendio'i gi fo, a mi fues i'n siarad efo fo'i hun hefyd. A 'ma fo'n deud 'tha i, *"I got a letter from your mother once." "Yes,"* meddwn i, *"about my boots. I'd like to know what she put in that letter, because neither you nor she ever mentioned the boots afterwards." "I know,"* medde fo. A 'ma fo'n deud 'tha i beth o'dd mam wedi deud yn ei llythyr ato: *"Dear Sir, If you will kindly look after his head, I will look after his feet. Yours truly, Laura Jones."*

Mae'r stori fach honno'n rhoi syniad go lew inni am gymeriad y fam. Byddai W.O. yn arfer dweud mai hi oedd "*sergeant-major* ein tŷ ni", a byddai'n ei disgrifio hi fel "dynes oedd yn byw o flaen ei hoes...wedi gweld y byd, w'ch chi. Roedd hi wedi cael addysg *High School* ac wedi ei hyfforddi'n nyrs yn ysbyty enwog Guy's yn Llundain, ac am flynyddoedd cyn priodi bu'n gwasanaethu fel *nanny* efo teulu Saesneg bonheddig a chefnog oedd yn arfer treulio tri mis o'r flwyddyn yn eu gwlad eu hunain a'r naw mis arall mewn gwahanol rannau o gyfandir Ewrop. Yng ngwlad Groeg gyda'r teulu a wasanaethai yr oedd Nyrs Laura pan gyfarfu â chapten llong o Gymro oedd wedi glanio yno, a'r ddau yn darganfod eu bod ill dau yn hanu o'r Bermo, a'i bo hi'n ferch i Capten Owen Griffith, y gŵr yr oedd yntau, sef John Jones, wedi bwrw ei brentisiaeth fel morwr dan ei gyfarwyddyd flynyddoedd ynghynt, pan oedd hi, Laura, yn ddim ond plentyn ifanc iawn. A chanlyniad y cyfarfyddiad rhamantus hwnnw oedd y priodi a'r ymsefydlu yn y Felinheli, a genedigaeth W.O. a'i frawd o'i flaen a'i ddwy chwaer wedyn. Fell y crybwyllwyd eisoes, bu Captain John Jones farw yn y Bermo pan nad oedd W.O. ond deuddeg oed, a'i frawd Albert ("Bert" fel yr adwaenid ef) ychydig yn hŷn. Cyfnod cymharol fyr, felly, o gwmni eu tad a gafodd y plant, ond mae un o atgofion W.O. am ei dad yn ddadlennol iawn:

> Mi fydde Mam yn mynd i'r *Class Meeting* Wesle. O'dd gan flaenoriaid y Wesleaid bob un ei gyfran o aelodau'r Eglwys i ofalu amdanyn nhw ac i gynnal seiat fach efo nhw bob wythnos, a *Class Meeting* o'n nhw yn ei alw fo. A thra bydde Mam yn y cyfarfod fydde Nhad yn rhoi i ni, mrawd a finne, wersi, yn dysgu inni be o'dd o'n galw'n *Noble art of self-defence* – rhoi ni i focsio, chi'n gweld. A rhyw ddiwrnod, amser te, dyma fi'n rhoi'r gath allan o'r cwd – deud wrth 'y nhad (o'n i ddim yn cofio bod fy mam yno). "Gewch chi weld, Nhad, mi ro' i gweir iawn i Bert heno". "Be sy'n mynd ymlaen?" medde Mam – a mi ddalltodd hi be' o'dd o'n neud. Mi a'th ag un ohono' ni efo hi i'r *Class Meeting* bob tro ar ôl hynny – 'chae'r ddau ohono' ni ddim bod adref efo Nhad. Ac felly rhoth hi stop ar y *boxing.* Ond d'odd dim byd o'i le yn'o fo, nag o'dd. *Self-defence!* Hen gapten llong wedi gweld y byd, 'nte!

Un hanesyn bach eto. Wedi i'r hogyn anystywallt 16 oed ddod at ei goed a dechrau gwneud iawn am ei fethiannau addysgol trwy basio arholiad Coleg y *Preceptors,* fe ddarganfu fod ei fam eisoes wedi talu deugain punt i gael ei brentisio i fferyllydd yn y Drenewydd, a dyna'i atgof am y noson cyn iddo adael cartref:

> Pan es i'n brentis i Drenewydd, noson cyn imi fynd, dyma fy mam yn deud 'tha i, "Ma' 'na'i isio siarad efo ti." O'n **i** ddim isio bod yn gemist mwy na isio cur yn 'y mhen, ond ma'n debyg mod i'n hogyn drwg, a mam isio cael rh'wun i nghontrolio fi, ma'n siŵr – a 'ma hi'n deud 'tha i (o'n i'n disgwyl iddi ddeud, "Cofia di ddeud dy bader" a "Cofia di fynd i'r capal" – ond nid dene ddeudodd hi. Y cwbl ddeudodd hi wrtha' i oedd hyn): "Er dy fod ti'n fab i mi, w't ti ddim yn bad lwcin, a mi fydd dy demtasiwn di'n fwy. Paid ti **byth** â chymyd mantais ar eneth ddiniwed." Wyddwn i ar wyneb y ddaear am be' o'dd hi'n siarad – adag hynny! A dyma fi'n gofyn iddi wedyn, "Mam," medde fi fel ene, "i ble'r â i ar y Sul? Do's 'na ddim Wesle Cymraeg yn Drenewydd. Ma' 'na Annibynwyr Cymraeg a ma' 'na Fethodistiaid Calfinaidd Cymraeg, ond dim ond Wesleaid Saesneg sy' 'na." A dyma'r ateb gês i gynny hi: "Dos di at y Wesle, 'tasa nhw'n *French*!" Wedyn (oedd sylw W.O.) o'dd enwad yn fwy pwysig o lawer 'radag hynny nag oedd iaith; ma' hi'n hollol wahanol erbyn heddiw, diolch byth!

Ac un sylw bach o'm heiddo fy hun wrth gloi. Cofiwch mai ar ochr ei **dad,** nid ar ochr ei **fam**, yr wyf fi'n perthyn i W.O. Tybed ai hynny sy'n cyfrif fy mod, er yn Wesle **selog**, ddim, gobeithio, yn Wesle **cul**!

*OWEN E EVANS*

# Nodyn Golygyddol

Trefnwyd 'pererindod' lwyddiannus gan y Gymdeithas Hanes unwaith eto ym mis Mai dan arweiniad Mr Robin Jones. Hon oedd ein trydedd bererindod a phobun ohonynt wedi bod yn achlysuron diddorol a phleserus iawn. Aethom y tro hwn i bentref Eglwysbach lle cawsom ddiwrnod hyfryd yn cofio a dathlu bywyd y pregethwr mawr, John Evans 'Yr Eglwysbach'. Rhoddwyd adroddiad o'r digwyddiad yn y *Gwyliedydd* Awst-Medi 2015. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd anerchiad am 'Yr Eglwysbach' gan Dr Telfryn Pritchard. Yn ôl ein haddewid rydym yn cyhoeddi'r anerchiad yn y rhifyn hwn o *Bathafarn Bach* ac rwy'n sicr y bydd pawb oedd yn bresennol a'r rhai oedd yn methu dod yn falch iawn o'r cyfle i'w ddarllen.

Hefyd yn y rhifyn hwn cawn y rhan gyntaf o erthygl ddifyr gan y Parch. Ddr Owen Evans am y milfeddyg a Wesle selog William Owen Jones, Llanrwst. Bydd yr ail ran yn dilyn yn y rhifyn nesaf. Rydym yn ddiolchgar iawn i lysferch 'W.O.', Mrs Gaynor Stythe-Jones, am y lluniau ohono sy'n ymddangos gyda'r erthygl.

Erbyn hyn mae pob rhifyn o *Bathafarn Bach* a rhifynnau diweddar y *Gwyliedydd* ar gael ar wefan Synod Cymru (www.synodcymru.org.uk). Felly, hyd yn oed os nad ydych wedi cadw eich copïau mae'n hawdd dod o hyd i gynnwys y ddau bapur.